# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 2 Hydref 2017 am 7.30yh**
**yn Ystafell Berkley, Penyparc**

**Presennol:**

Cyng. Llinos Price *(Cadeirydd)*
Cyng. Dilwyn Jenkins *(Is-Gadeirydd)*
Cyng. Des Davies
Cyng. Lloyd Jenkins
Cyng. Peter Williams
Cyng. Clive Davies *(aelod lleol y Cyngor Sir)*
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i gyfarfod mis Hydref.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Eurig Lloyd, Ann Stokoe, Lyn Jones, Auriol Williams

**2(a) Cyfethol Aelodau Newydd.**

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins bod Mr Matthew Morgan yn cael ei gyfethol yn gynghorydd ar Gyngor Cymuned y Ferwig. Roedd pawb yn gytûn.
Gofynnwyd i'r Clerc ei wahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, sef 6 Tachwedd, 2017 am 7.30 o'r gloch, yn Hen Ysgol y Ferwig.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol**
Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod cofnodion mis Medi yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Des Davies – Eitem 6 - Cymorth ariannol Papur Bro "Y Gambo"
Y Cyng. Dilwyn Jenkins – Eitem 7 – Cais Cynllunio High Haven, Gwbert.

5. **Materion yn codi:**
   (a) **Llechen goffaol oedd yn y clawdd gyferbyn i Hen Ysgol y Ferwig**: Mae'r Cadeirydd, Y Cyng. Llinos Price, wedi cysylltu gyda Mr Dyfed Symmons ynglŷn â'r gwaith yma. Addawodd gwblhau'r gwaith cyn gynted â phosib.
   (b) **Cyfyngder Cyflymdra heibio Ysgol Gymunedol Penyparc:** Dywedodd y Cyng. Dilwyn Jenkins fod y cyfyngder cyflymdra wedi gwneud gwahaniaeth mawr.
   (c) **Gweithredoedd Ystafell Berkley, Penyparc:** Mae apwyntiad wedi ei drefnu gyda Mr Dafydd Rees, cwmni George Davies & Evans, ar 16 Hydref; bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn trafod y gweithredodd.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

| | |
|---|---|
| Hen Ysgol y Ferwig | I'w drafod ym mis Ebrill 2018 |
| PTA Ysgol Gymunedol Penyparc | I'w drafod ym mis Tachwedd 2017 |
| Ysgol Feithrin Penyparc * | £2,000 |
| Papur Bro "Y Gambo" | £150 |

(*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)*

* Yn dilyn yr argyfwng o fewn gweinyddiaeth yr Ysgol Feithrin ym Mhenyparc, cytunodd yr aelodau bod y Cyngor yn cyfrannu'r swm i gynorthwyo a sicrhau dyfodol yr ysgol. Rhoddir y swm unigol yma gyda'r amod bod y swyddogion yn creu canllawiau llym i sicrhau a diogelu'r cyfrifon ariannol yn rheolaidd, er enghraifft bob chwarter, fel yr awgrymir i gynghorau tref a bro gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
Mae'r aelodau, hefyd, wedi penderfynu y bydd angen i bawb sydd yn gwneud cais am gymorth ariannol yn anfon cyfrifon diweddara'r gymdeithas/mudiad gyda'r cais.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins bod yr uchod yn cael eu talu.

7. **Cynllunio:**

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau* |
|---|---|---|
| A170874 | High Haven, Gwbert "Codi estyniad a newidiadau i'r byngalo presennol, codi tŷ haf a garej, estyniad i gwrtil ac ail-leoli 2 garafan." | Nid oedd gan yr aelodau wrthwynebiad. |

## 8. Materion Ariannol

**Biliau wedi eu talu:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Medi 2017) | 101637 | £308.77 |
| Costau'r Clerc (Medi 2017) | 101638 | £63.60 |
| Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Medi 2017) | 101639 | £77.20 |
| SSE SWALEC: Trydan ystafelloedd newid Ystafell Berkley | 101640 | £26.27 |

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Lloyd Jenkins bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Materion ariannol eraill**: Archwiliwyd dogfennau ariannol y chwe mis (Ebrill-Medi 2017) gan y Cyng. Ann Stokoe ar 27 Medi 2017 a'u cafwyd yn gywir.

**Adroddiad Ariannol Chwarterol y Cyngor (Gorffennaf – Medi 2017)**:
Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad.

## 9. Gohebiaeth:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 52 | Cyngor Sir Ceredigion (Huw Williams) | Cadarnhad oddi wrth yr adran: Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Asesiad bod y rheolau cynllunio wedi eu torri (Brynteg, Ferwig). Bydd yr adran yn cysylltu gyda'r datblygwr ymhellach i esbonio sut y gellir unioni'r sefyllfa. | Blaenyrrwyd i'r aelodau ar 13 Medi.<br><br>Cytunwyd anfon gwybodaeth i'r Cyngor Sir y byddai ail-leoli'r plinth yn ei man gwreiddiol yn y clawdd yn awr yn amhosib. |
| 53 | Playsafety Ltd (RoSPA) | Adroddiadau mannau chwarae:<br>Cae Gwyrdd a Man /Chwarae'r Ferwig | Blaenyrrwyd i'r aelodau a Mr John Morris ar 5 Medi. |
| 54 | Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | Ymateb gan ddatgan mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw glanhau'r gysgodfan bysiau ym mhentref Penyparc. Bydd yr Asiant yn archwilio'r tyfiant ger cyffordd Heol Tywod, Penyparc. | Gofynnwyd i'r Clerc anfon copi o lythyr yr Asiant i'r Cyngor Sir gan wyntyllu mai hwy sydd â chyfrifoldeb am y gysgodfan. |
| 55 | Mr Matthew Morgan Gwbert | Yn cynnig ei enw i'w ystyried i'w gyfethol yn gynghorydd ar Gyngor Cymuned y Ferwig. | Y Clerc i gysylltu â Mr Morgan yn gofyn iddo fynychu cyfarfod y Cyngor nesaf ar 6 Tachwedd, 2017. (Gweler eitem 2a.) |
| 56 | Tai Ceredigion Cyf. (Mr Steve Jones, Prif Weithredwr) | Ymateb i gais y Cyngor am wybodaeth ynglŷn â datblygiad a gwelliannau i Llys Arfon | Nodwyd |
| 57 | Cyngor Tref Aberteifi | Cais am ganiatâd i'r Maer wisgo ei gadwyn pan ar ddyletswyddau o fewn y gymuned. | Y Clerc i ymateb yn gadarnhaol i Gyngor y Dref. |

## 10. Materion Eraill:

(a) **Côd Ymddygiad i Aelodau (Cyngor Sir Ceredigion).** Mabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 21 Ebrill 2016 a bu'n weithredol oddi ar 20 Mai 2016. Mae angen mabwysiadu'r ddogfen gan Gyngor Cymuned y Ferwig fel y cynghorwyd gan yr archwilydd allanol.
Cytunwyd mabwysiadu'r ddogfen wedi i'r Cyngor gyfethol aelodau newydd.

(b) **Cyfieithu rhannau o'r wefan**: Mae angen cynnal y wefan yn ddwyieithog, yn unol â chynllun yr iaith Gymraeg, felly mae angen cyfieithu rhannau helaeth ohono. Bydd y clerc yn trefnu hyn.

(c) **Brynteg, Ferwig**: Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir unwaith eto yn gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r agoriad anghyfreithlon yn y clawdd. Mae'r plinth oedd yn dal y llechen wedi diflannu sydd yn awr yn ei gwneud yn amhosib ail-leoli'r plinth yn ei man gwreiddiol.

(d) **Cysgodfan Bws ar A487 (gyferbyn â garej O. C. Davies a'r Mab, Penyparc).** Mae angen glanhau'r gysgodfan yma. Cytunodd y Cyng. Peter Williams hel gwybodaeth am berchnogaeth yr adeiledd.

(e) **Baw Cŵn ym mhentref Penyparc:** Dywedodd y Cyng. Llinos Price y byddai'n awgrymu i brifathrawes Ysgol Gynradd Penparc bod y plant yn cynllunio poster i'r perwyl yma. Gwirfoddolodd Matthew Kieboom (PCSO) hefyd roi cyflwyniad i'r plant ynglŷn â'r mater anghymdeithasol hwn.

(f) **Cinio Nadolig i drigolion y gymuned sydd dros 70 oed**: Bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn mynd ati i drefnu dyddiad gyda swyddog y Clwb Golff yn Gwbert.

(g) **12 Heol y Felin, Penyparc**: Mae materion yn ymwneud â'r fflat wedi eu hanfon gan y Cadeirydd at gwmni Tai Ceredigion; cytunwyd ganddynt i anfon swyddog i archwilio'r pryderon.

**11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies**

(a) **Parcio yn Patch:** Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn llwyddiannus â chais am grant i greu cynllun gweithredol i borthladdoedd yng Ngheredigion o dan strategaeth "Y Ffordd Ymlaen" Llywodaeth Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys datblygu aber yr afon Teifi, felly bydd ymgynghoriad gyda phwyllgor Sianel Glir Afon Teifi a'r cynghorau lleol o fewn y pedwar mis nesaf.

(b) **Monitro cyflymder y drafnidiaeth drwy bentrefi Penyparc a Llechryd.** Dywedodd y Cyng. Davies bod y cynllun i warchod cyflymder yn y pentrefi yn datblygu. Mae ardal Penyparc wedi ei dynodi ac mae preswylwyr wedi cynnig gwasanaethu ar y cynllun. Bydd angen trefnu arbrofion gan yr heddlu a hefyd hyfforddiant yn ystod y misoedd nesaf.

(c) **Lôn Mwnt:** Derbyniwyd bod lefel y drafnidiaeth ar y ffordd i Mwnt yn pery pryder dros fwyafrif llethol o'r flwyddyn. Mae angen dybryd i edrych ar ddatblygu mannau pasio cyfleus ac i ailarwynebu'r ffordd. Disgwylir ymateb oddi wrth adran briffyrdd y Cyngor Sir.

(d) **Lôn Blaenpistyll, Tremain:** Mae problemau rhediad dŵr a phrinder draeniau ar y ffordd wedi eu hadrodd i'r Cyngor Sir. Mae'r Cyng. Davies wedi tynnu lluniau o'r man ac yn disgwyl ymateb mewn da bryd.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 6 Tachwedd (F)

**Cyfarfod y Cyngor am 2017:** 4 Rhagfyr (YB)

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2018**

8 Ionawr (F) 5 Chwefror (YB) 5 Mawrth (F) 9 Ebrill (YB) 14 Mai (F) 4 Mehefin (YB)
2 Gorffennaf (F) 3 Medi (YB) 1 Hydref (F) 5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F)

*Dynoda* F =Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Minutes of the Ordinary Meeting held on 2 October 2017 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc**

**Present**

Cllr Llinos Price *(Chairperson)*
Cllr Dilwyn Jenkins *(Vice Chairperson)*
Cllr Des Davies
Cllr Lloyd Jenkins
Cllr Peter Williams
Mrs Hildreth Owen *(Clerk)*
Cllr Clive Davies *(local member of the County Council)*

1. **Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the October meeting.

2. **Apologies for absence:** Councillors Eurig Lloyd, Ann Stokoe, Lyn Jones, Auriol Williams

2(a) **Co-option of New Members:** It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that Mr Matthew Morgan be co-opted as a councillor on Ferwig Community Council. All were in favour.
The Clerk was asked to invite Mr Morgan to the next council meeting to be held on 6 November, 2017 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig.

3. **Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the minutes of the September meeting be recorded as correct.

4. **Declaration of personal interests:**
Cllr Des Davies – Item 6 – Request for financial support Papur Bro "Y Gambo"
Cllr Dilwyn Jenkins – Item 7 – Planning for High Haven, Gwbert.

5. **Matters arising:**
(a) **Memorial Plaque removed from the hedge opposite Hen Ysgol y Ferwig:** Cllr Llinos Price has spoken to Mr Dyfed Symmons regarding the work to be carried out. He stated that he would complete the work as soon as possible.
(b) **Speed limit at Penyparc Junior School**: Cllr Dilwyn Jenkins stated that the Order to curtail speed was most welcome and had already proven its worth.
(c) **Deeds of Ystafell Berkley, Penyparc:** An appointment has been arranged to see Mr Dafydd Rees of George, Davies & Evans; the Chairperson, Cllr Llinos Price, and the Clerk will attend on Monday, 16 October.

6. **Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

| | |
|---|---|
| Hen Ysgol y Ferwig | To be discussed at the April 2018 meeting |
| PTA Ysgol Gymunedol Penyparc | To be discussed at the November 2017 meeting |
| Ysgol Feithrin Penyparc | £2,000* |
| Local Welsh newspaper "Y Gambo" | £150 |

*(Names in italics = accounts forwarded with applications)*

* As a result of the failure of the financial administration at the school, members of the Council agreed to contribute the stated sum in order to secure the future of the school. This one-off sum has been contributed with the condition that the officers thereat will introduce a strict financial system to ensure the regular internal audit of the establishment's funds, for instance, every quarter as recommended to all town and community councils by the Auditor General for Wales.

It has also been agreed that all future requests for financial assistance from charities and other bodies will include the latest financial accounts or up-to-date bank statements.

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that the above cheques be paid.

## 7. Planning:

| *Application Number* | *Address and purpose* | *Council's Comments* |
|---|---|---|
| A170874 | High Haven, Gwbert "Erection and extension and alterations to existing bungalow, erection of summer house and garage, extension to curtilage and re-siting of 2 caravans. | The Council has no objection. |

## 8. Financial Matters.

**Bills paid:**

| | | |
|---|---|---|
| Clerk's wages (September 2017) | 101637 | £308.77 |
| Clerk's Expenses (September 2017) | 101638 | £63.60 |
| HM Customs & Excise (Clerk's Income Tax September, 2017 | 101639 | £77.20 |
| SWALEC (Electricity for Changing Rooms at Ystafell Berkley) | 101640 | £26.27 |

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that the above bills be paid.

**Receipts:** None.

**Other Financial Matters:** Financial documents for 6 months (April-September 2017) were examined by Cllr Ann Stokoe on 27 September and were found to be in order.

**Quarterly Financial Report of the Council (July to September 2017)**

It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the council approves the report.

## 9. Correspondence:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 52 | Ceredigion County Council. (Huw Williams) | Confirmation from the County Council: Town and Country Planning Act 1990 – An assessment of the enforcement issue that there is a breach of planning control (Brynteg, Ferwig). The developer will be contacted to investigate how the situation can be regularised. | Forwarded to members on 13 September.<br><br>It was agreed to inform the County Council that replacing the plinth in the hedge in its original position was now impossible. |
| 53 | Playsafety Ltd (RoSPA) | Reports of the inspections of the play areas at Cae Gwyrdd, Penyparc, and the Ferwig Play Area. | Forwarded to members and Mr John Morris on 5 September. |
| 54 | North & Mid Wales Trunk Road Agent | Response stating that it is the responsibility of the County Council to clean the bus shelter at Penyparc. The Agent will investigate the overgrown trees (on A487) near Heol Tywod, Penyparc. | The Clerk was requested to write to Ceredigion County Council, enclosing a copy of the North & Mid Wales Trunk Road Agent's letter informing that the maintenance of the bus shelter is the responsibility of the County Council. |
| 55 | Mr Matthew Morgan Gwbert | Application received from Mr Morgan to be considered for nomination as a member of Ferwig Community Council | The Clerk to contact Mr Morgan requesting that he attends the next council meeting on 6 November, 2017. (See item 2a.) |
| 56 | Tai Ceredigion Cyf. (Mr Steve Jones, (Chief Executive) | Response to Council's request for information regarding the recent purchase and improvements to Llys Arfon. | Noted |
| 57 | Cardigan Town Council | Request for permission for the Mayor to wear his chain of office when carrying out his duties in the community. | The Clerk to respond with the Council's approval. |

## 10. Other matters:

(a) **Code of Conduct for Members (Ceredigion County Council).** Adopted by the County Council on 21 April 2016 an effective from 20 May 2016. Ferwig Community Council has to adopt the document as advised by the external auditor.
It was agreed to adopt the document following the co-option of new members.

(b) **Translating sections of the website:** Following the Welsh language scheme policy, sections of the website require translating. The Clerk will organise that this task is done in due course.

(c) **Brynteg, Ferwig**: The Clerk was asked to contact the County Council technical services once more regarding an update to this unauthorised development. The plinth holding the slate was located where the entrance has been created, therefore making it impossible to resite the slate.

(d) **Bus Shelter on the A487 (opposite the O. C. Davies & Son garage):** The bus shelter is in need of cleaning. Cllr Peter Williams stated that he would enquire as to who is responsible for its cleaning.

(e) **Dog Fouling at Penyparc:** Cllr Llinos Price stated that she would speak to the headmistress at Ysgol Gynradd Penyparc suggesting that a competition be arranged for pupils to create a poster. Matthew Kieboom PCSO has also stated that he would be willing to give the pupils a talk highlighting this problem.

(f) **Christmas Lunch for the over 70's in the community:** The Chairperson, Cllr Llinos Price, and the Clerk will arrange a date with Cardigan Golf Club.

(g) **12 Heol y Felin, Penyparc**: Issues regarding the flat have been reported to Tai Ceredigion by the Chairperson; an officer has been allocated to investigate the concerns.

**11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:**

(a) **Parking at Patch:** Ceredigion County Council has been successful in obtaining a grant for creating a plan of action for ports in Ceredigion under the "Way Forward" strategy from the Welsh Government. This scheme includes development in the Teifi estuary, so there will be a consultation with the Afon Teifi Fairways Committee and the local councils within the next four months.

(b) **Monitoring of vehicle speed through the village of Penyparc.** Cllr Davies reported that the developing of the speed watch both in Penyparc and Llechryd is progressing. The Penyparc site has been identified, and residents have volunteered. Police checks and personnel training will be organised during the coming months.

(c) **Mwnt Road:** It has been reported that the traffic level on the road to Mwnt during the majority of the year is causing concern. There is a necessity to look at options for passing bays and improving sections of the road. Cllr Davies is awaiting a response from the Highways Department.

(d) **Blaenpistyll road, Tremain:** Issues with water and lack of drainage on this section of the highway have been reported to Cllr Davies who has attended the location and forwarded photographs to the County Council for a plan of action. A response is awaited.

**12. Date of next meeting:** 6 November at Hen Ysgol y Ferwig

**Date of remaining Council Meeting for 2017:** 4 December (YB)

**Council Meeting, 2018**

8 January (F) 5 February (YB) 5 March (F) 9 April (YB) 14 May (F) 4 June (YB)
2 July (F) 3 September (YB) 1 October (F) 5 November (YB) 3 December (F)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley